OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2682

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001

**Pwerau mynediad**

**12.** Caiff person awdurdodedig sy'n arfer pwerau mynediad o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968(**1**) at ddibenion y Rheoliadau hyn fynd â chynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd gydag ef neu hi sy'n gweithredu at ddibenion —

(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 88/166/EEC(**2**) sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy a gedwir mewn cewyll batri;

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 91/629/EEC(**3**) sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn lloi fel y'i diwygiwyd gan y Gyfarwyddeb y Cyngor 97/2/EC(**4**)) a Phenderfyniad y Comisiwn 97/182/EC(**5**);

(c) Cyfarwyddeb y Cyngor 91/630/EEC(**6**)) sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn moch; neu

(ch) Cyfarwyddeb y Cyngor 98/58/EC(**7**) ynghylch amddiffyn anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio;

yn ogystal ag unrhyw berson sy'n mynd gydag ef neu hi o dan y pwerau a ddarperir o dan adran 6(3) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1968 p. 34.
(**2**) OJ Rhif L74, 19.3.88, t. 83.
(**3**) OJ Rhif L340, 11.12.91, t.28.
(**4**) OJ Rhif L.25, 28.1.97, t.24.
(**5**) OJ Rhif L76, 24.2.97, t.33.
(**6**) OJ Rhif L340, 11.12.91, t.33.
(**7**) OJ Rhif L221, 8.8.98, t.23.